OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 825 (Cy.74)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) (Dirymu) 2009

Gwnaed - - - -	*30 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Ebrill 2009*
Yn dod i rym - -	*24 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 181 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) (Dirymu) 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Ebrill 2009 ac maent yn gymwys i Gymru.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Cymru) 2007(**3**).

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

30 Mawrth 2009

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(d) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2007/2311 (Cy.182).